***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 643

# Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017

## RHAN 7

### Penderfyniadau ar yr adolygiad

**Hysbysu ynghylch y penderfyniad**

**24.** Rhaid i'r person penodedig, ar ôl dod i'r casgliad nad yw unrhyw dystiolaeth bellach yn ofynnol er mwyn ei alluogi i wneud ei benderfyniad ar yr adolygiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol roi hysbysiad ynghylch ei benderfyniad, a'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw, i—

(a) y ceisydd;

(b) Gweinidogion Cymru;

(c) pob person â buddiant; a

(d) unrhyw berson y rhoddir hysbysiad iddo o dan reoliad 7(1)(b).